



Gweithdai mynd i'r afael â stigma tlodi

Cefndir

Yn 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru inni gynhyrchu cyfres o adroddiadau ar dlodi ac allgáu cymdeithasol, gan edrych ar dystiolaeth o Gymru a ledled y byd. Er mwyn deall y profiad o dlodi yng Nghymru, fe wnaethom gynnal adolygiad o'r ymchwil sy'n bodoli eisoes a threfnu cyfres o grwpiau ffocws gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi.

Daeth i'r amlwg inni fod mynd i'r afael â stigma yn flaenoriaeth o bwys i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi. Mae hyn oherwydd bod stigma tlodi yn niweidio iechyd meddwl pobl a gall eu hatal rhag cael cefnogaeth neu chwarae rhan lawn yn eu cymunedau.

Ar ôl gorffen y prosiect gwreiddiol i Lywodraeth Cymru, fe benderfynon ni archwilio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi ymhellach, gan edrych ar ymchwil sydd eisoes yn bodoli a chael sgysiau ag arbenigwyr academiaidd a'r rhai sydd wedi cael profiadau o dlodi.

Ar ôl pwysu a mesur y canfyddiadau cychwynnol hyn, fe wnaethom gynnal cyfres o weithdai ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023, mewn partneriaeth â'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus

Rhyngwladol (IPPO) a Lab Cyd-gynhyrchu Cymru.

Trosolwg o'r gweithdai

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gynnal gweithdy wyneb yn wyneb yn Nhŷ Pawb yn Wrecsam. Denwyd cymysgedd eang o bobl o bob cwr o Gymru a'r DU, gan gynnwys llunwyr polisïau o fyd llywodraeth leol a chenedlaethol, ymarferwyr, pobl ifanc, ac arbenigwyr academiaidd a'r rhai oedd â phrofiadau o dlodi.

Pwrpas y gweithdy wyneb yn wyneb oedd dod â'r gwahanol bobl a'r safbwyntiau hyn ynghyd, i drafod yr hyn yr oeddem yn ei wybod ar y cyd am stigma tlodi, a chyd-fyfyrion ar yr hyn y mae hyn yn ei olygu i bolisïau ac arferion. Wrth wneud hyn, fe wnaethom geisio amlygu meysydd ffocws a chyfeiriad posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r dystiolaeth orau i fynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol.

Yn dilyn y gweithdy wyneb yn wyneb, fe wnaethom gynnal ail weithdy ar-lein ddechrau mis Rhagfyr 2023. Roedd y rhai a gymerodd ran yn cynnwys cymysgedd o'r rhai a ymunodd â ni yn Wrecsam a'r rhai nad oeddent wedi gallu bod yno. Pwrpas yr ail sesiwn hon oedd adeiladu ar



yr hyn yr oeddem wedi'i ddysgu gyda'n gilydd o ganlyniad i'n trafodaethau yn Wrecsam, i nodi rhai syniadau ar gyfer gwaith y gallai WCPP ac eraill eu datblygu i helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r dystiolaeth orau i fynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol.

Gweithdy un – Wrecsam – Tachwedd 2023

Roedd y gweithdy yn Wrecsam yn cynnwys cyfres o weithgareddau trafod a gynlluniwyd mewn partneriaeth ag arbenigwyr profiad byw o Gomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe ac APLE Collective (Mynd i'r Afael â Thlodi gyda Phrofiad Bywyd). Paratowyd y rhain i gael dealltwriaeth ar y cyd mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- 1 Beth yw stigma tlodi a pham mae'n bwysig?
- 2 Pwy all helpu i fynd i'r afael â stigma tlodi, a sut?
- 3 Beth sydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei wybod a'i ddeall er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol?

Mae'r crynodebau isod yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r trafodaethau hyn.

Gweithgaredd 1: Beth yw stigma tlodi a pham mae'n bwysig?

Yn ystod y gweithgaredd hwn, bu'r rhai a gymerodd ran yn y gweithdy yn myfyrio ar eu hymateb i'r cwestiwn, 'Beth yw stigma tlodi a pham mae'n bwysig?'. Darparwyd ymatebion cyn y gweithdy i'r cwestiwn hwn i gefnogi trafodaethau.

Beth ddysgon ni

Yn gyntaf ac yn bennaf oll, mae stigma tlodi yn rhywbeth a **wneir** i bobl sy'n byw mewn tlodi ac

mae'n digwydd ar sawl haen mewn cymdeithas, o fod ar lefel ryngpersonol i lefel strwythurol.

Yn ogystal â dod yn uniongyrchol oddi wrth eraill, mae stigma tlodi'n cael ei greu a'i atgyfnerthu gan y ffordd mae tlodi'n cael ei gynrychioli yn y cyfryngau ac yn wleidyddol, a thrwy baratoi a chyflwyno polisiau a gwasanaethau cyhoeddus – yn enwedig pan mae'r rhain yn tynnu sylw at bobl sydd mewn tlodi, neu'n defnyddio dull biwrocraidd ac annynol. Roedd rhai yn dadlau bod stigma tlodi yn gweithredu fel arf ar lefel wleidyddol i leihau gwariant cyhoeddus a phenderfynu pwy sy'n cael cymorth, a phwy sydd ddim.

I'r rhai sy'n byw mewn tlodi, gall stigmatiddio tlodi mewn cymdeithas wneud i bobl deimlo cywilydd, euogrwydd, a'u bod yn israddol ac ar wahân i bawb arall, gan arwain at iechyd meddwl gwael. Gall hefyd gyfyngu ar i ba raddau mae pobl yn chwarae rhan mewn cymdeithas a'r cymorth y maent yn ei gael.

Yn ogystal â'r cipolygon hyn, amlygodd y drafodaeth y canlynol:

- **Rôl syniadau diwylliannol.** Mae stigma tlodi yn cael ei waethgu gan syniadau diwylliannol sy'n hyrwyddo ymdeimlad cul o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw bywyd 'da' neu 'lwyddiannus', megis bod yn annibynnol yn ariannol. Mae'r rhain wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein cymdeithas, wedi'u datblygu o blentyndod cynnar, ac yn cyfrannu at ragfarn ymwybodol a diarwybod sy'n effeithio ar bobl mewn tlodi. Er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi, rhaid i ddiwylliant sylfaenol ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth, a gwerthfawrogi ffyrdd

eraill o gyfrannu at gymdeithas y tu hwnt i waith a chyfoeth.

- **Yr angen i rymuso pobl a chymunedau i fynd i'r afael â thlodi a stigma tlodi.** Mae angen newid diwylliannol fel bod agenda sy'n seiliedig ar atal tlodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi (a stigma tlodi). Rhaid hefyd newid y naratif o un sy'n parhau â'r myth mai 'dewis yw tlodi' i un sy'n gweld bod tlodi yn deillio o system fethedig (ac y gallai ddigwydd i unrhyw un, a bod rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb amdano). Elfen hollbwysig yw sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad o dlodi (a stigma tlodi) yn

chwarae rhan ystyrllon yn y broses o lunio'r polisïau a'r penderfyniadau sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi.

- **Profiadau penodol plant a phobl ifanc.** Mae plant a phobl ifanc yn dioddef stigma tlodi, yn enwedig yn yr ysgol. Gall polisïau ysgol ychwanegu at hyn (er enghraifft, ynglŷn â gwisg ysgol neu brydau ysgol am ddim). Mae gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â stigma tlodi.

Mae'r cwmwl geiriau isod yn adlewyrchu'r geiriau a rannwyd ar y papur oedd ar eu byrddau yn ystod Trafodaeth 1.



Gweithgaredd 2: Pwy all helpu i fynd i'r afael â stigma tlodi, a sut?

Yn y gweithgaredd hwn, gweithiodd pawb mewn grwpiau bach i greu 'Mapiau Gweithredwyr'. Roedd y rhain yn manylu ar yr holl unigolion a sefydliadau allweddol sydd â rhan i'w chwarae wrth fynd i'r afael â stigma tlodi, beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau, a sut maent yn gysylltiedig â'i gilydd.

Beth ddysgon ni

Amlygwyd y canlynol yn adborth a thrafodaeth y grŵp cyfan:

- **Rheoleiddwyr:** Mae gan reoleiddwyr rôl allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â stigma tlodi (er enghraifft, rheoleiddwyr cyfryngau a rheoleiddwyr landlordiaid preifat).
- **Addysg:** Mae gan y sector addysg yn eang, ac ysgolion yn benodol, rôl allweddol i'w chwarae (y mae gan ysgolion y gallu i gael effaith ar unwaith ar y stigma tlodi a brofir gan bobl ifanc trwy newidiadau syml i bolisïau yn yr ysgol).
- **Cyfryngau:** Mae gan sefydliadau'r cyfryngau ran allweddol i'w chwarae wrth newid y naratif cyffredinol o ran tlodi (gyda stigma yn cael ei ysgogi gan normau cyfryngau cyfredol).
- **Llunwyr polisïau:** Trwy newidiadau polisi strategol (er enghraifft, mabwysiadu modelau fel y Comisiwn Gwirionedd Tlodi), mae'r rhain yn gallu cael effeithiau cadarnhaol sylweddol.
- **Pennu agendâu:** Mae newid yn gofyn am ymrwymiad o'r brig, ac mae gan ein harweinwyr cenedlaethol (roedd enghreifftiau a gynigiwyd yn cynnwys y Prif Weinidog a'r Brenin) ran i'w chwarae

wrth ddylanwadu ar yr agenda wleidyddol a chreu ysgogiad i weithredu.

- **Cydweithio:** Pwysleisiwyd bod angen 'gweithredu ar y cyd', gyda mynd i'r afael â stigma tlodi yn 'gyfrifoldeb pawb' a chydweithio rhwng sefydliadau amrywiol a phobl â phrofiad bywyd yn hanfodol.

Gweithgaredd 3: Beth sydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei wybod a'i ddeall er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol?

Yn y gweithgaredd hwn, eisteddodd pawb gyda'i gilydd mewn cylch a chynnal 'Cymuned Ymholi', gan drafod y cwestiwn 'Beth sydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei wybod a'i ddeall i fynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol?'

Beth ddysgon ni

Er bod trafodaeth eang a chyfoethog dros ben, daeth wyth thema eang i'r amlwg fel a ganlyn:

1. **Profiad bywyd:** Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes polisïau a gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sydd wedi byw mewn tlodi ac yn gwrandao arnynt.
2. **Empathi:** Mae angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod â chysylltiad emosiynol â phobl, a'r problemau, os ydynt am arwain newid effeithiol a pharhaol. Mae darparu 'profiadau normadol' a dod i gysylltiad ag 'amodau bywyd go iawn' y rhai sy'n byw mewn tlodi, yn hanfodol.
3. **Achosion craidd:** Ni ellir mynd i'r afael â stigma tlodi oni bai fod achosion sylfaenol tlodi (a stigma tlodi) yn cael eu taclo.
4. **Naratifau:** Mae 'newid y naratif' ynghylch tlodi yn hanfodol i fynd i'r afael â stigma. Rhaid i'n harweinwyr gydnabod

bodolaeth tlodi a phwysigrwydd mynd i'r afael â thlodi a stigma tlodi. Rhaid i'r naratif hwn gynnwys newid o dlodi fel 'problem unigolyn' i dlodi fel 'problem gymdeithasol a chyfunol'.

5. **Rolau a chyfrifoldebau:** Nid yw rhai meysydd polisi yn cydnabod eu rôl o ran mynd i'r afael â thlodi (a stigma tlodi). Mae asesu effaith (fwriadol ac anfwriadol) polisi ar dlodi a stigma tlodi yn hanfodol.
6. **Diwylliant gwaith:** Mae'r diwylliannau o fewn timau a sefydliadau yn uniongyrchol gysylltiedig â'u gallu i gymryd camau ystyrlon o ran tlodi a stigma tlodi.
7. **Cydgysylltiad:** Rhaid deall stigma tlodi mewn cysylltiad â materion a chyd-destunau ehangach (er enghraifft, mewn perthynas â thrawma rhwng y cenedlaethau, dewisiadau sy'n cyfyngu ar fywyd, diffyg galluedd ac yn y blaen). Mae creu 'amgylcheddau sy'n cael eu llywio gan seicoleg' i archwilio'r materion yn ddiogel yn hanfodol.
8. **Meddwl yn y tymor hir:** Mae angen meddwl yn y tymor hir (y tu hwnt i gylchoedd etholiadol) gan y llywodraeth i sicrhau newid ystyrlon a pharhaol.

Ar ddiwedd y Gymuned Ymholi, gwahoddwyd pob cyfranogwr i rannu unrhyw sylwadau neu fyfyrddodau i gloi. Dyma bum thema allweddol o ar draws y myfyrdodau hyn:

1. **Graddfa'r her:** Mae stigma tlodi a stigmâu cysylltiedig ehangach wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein cymdeithas, ac o fewn ein systemau. Mae angen newidiadau ar raddfa eang mewn sawl maes gwahanol, ac mae angen i fwy o leisiau (gan gynnwys uwch-arweinwyr) ymuno â'r drafodaeth.
2. **Caredigrwydd:** Dymunir diwylliant caredig a chefnogol, gyda'n gwasanaethau cyhoeddus (a gweithio

gyda'n gilydd) yn seiliedig ar dosturi, empathi a pharch.

3. **Cyfrifoldeb a rennir:** Mae gan bawb rôl i'w chwarae, ac mae angen i bawb dderbyn eu cyfrifoldeb personol dros gyfrannu at yr ateb.
4. **Sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed:** Mae cyfranogiad pobl â phrofiad bywyd (ac yn enwedig lleisiau ein pobl ifanc) yn hanfodol i wneud cynnydd.
5. **Gwerth trafod:** Roedd y grŵp yn gwerthfawrogi natur y Gymuned Ymholi ei hun. Nodwyd bod cyfleoedd i sgwrsio fel hyn yn brin, ond yn fawr eu hangen.

Myfyrdodau clo

Ar ddiwedd y gweithdy, gwahoddwyd y cyfranogwyr i rannu unrhyw sylwadau neu fyfyrddodau clo. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o'r myfyrdodau hyn.

Er bod yr ymdrech i ddod ynghyd i drafod y mater yn cael ei werthfawrogi, roedd hefyd ymwybyddiaeth **o faint yr her** rydym i gyd yn ei hwynebu wrth fynd i'r afael â stigma tlodi, sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ein cymdeithas ac yn ein systemau. Mae angen newidiadau mawr mewn nifer o wahanol feysydd, ac mae angen i fwy o leisiau ymuno â'r drafodaeth.

Roedd eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod 'caredigrwydd yn aml yn cael ei golli pan fyddwn yn dechrau siarad am stigma, oherwydd ei fod yn seiliedig ar farn' (Cyfranogwr yn y Gweithdy). Mae gwasanaethau cyhoeddus ac eraill yn y maes angen creu diwylliant caredig a chefnogol sy'n seiliedig ar dosturi, empathi a pharch.

Roedd sicrhau **bod pob llais yn cael ei glywed** yn bwysig i'r cyfranogwyr drwy gydol y dydd, ac fe'i pwysleiswyd yn y myfyrdodau clo. Mae hyn, yn bwysig iawn, yn cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol, ac yn benodol lleisiau

pobl ifanc, a oedd yn cael ei ystyried yn hanfodol i wneud cynnydd.

Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen i gydnabod bod mynd i'r afael â stigma tlodi yn **'gydgyfrifoldeb** ond mewn rolau gwahanol' (Cyfranogwr yn y gweithdy). Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth fynd i'r afael â stigma ac i bawb dderbyn eu cyfrifoldeb personol wrth gyfrannu at yr ateb. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd yr angen i gydnabod beth yw ein cyfrifoldeb heddiw i greu newid nawr:

Mae'n rhaid i ni edrych ar beth yw ein cyfrifoldeb heddiw, hyd yn oed os yw mor syml â phan fyddwch chi'n clywed rhywbeth, dydych chi ddim yn ymosod ar rywun am ei ddweud, rydych chi'n gofyn ychydig o gwestiynau i wneud iddo feddl... yna gallwn ni wir eistedd a meddwl amdano yn y tymor hir. Sut gallwn ni gyda'n gilydd greu'r newid hwn neu weithio tuag ato fel nad ydyn ni'n eistedd yn y cylch hwn mewn 20 mlynedd yn dweud yr un peth? (Cyfranogwr yn y gweithdy)

Yn olaf, roedd y grŵp yn myfyrio ar werth **dod at ei gilydd mewn un gofod** a natur agored y drafodaeth yr oedd fformat y Gymuned Ymholi yn caniatáu ar ei chyfer. Nodwyd bod cyfleoedd i wneud hyn yn brin, ond bod gwir angen amdanynt.

Gweithdy 2 – Ar-lein – Rhagfyr 2023

Cynlluniwyd y gweithdy ar-lein a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr i roi crynodeb o'r prif wybodaeth a rannwyd yn y gweithdy wyneb yn wyneb. Roedd hefyd yn gyfle i ystyried a llywio ein camau nesaf a'r potensial i gydweithio ymhlith y rhai a

ymunodd â ni yn Wrecsam a'r rheini oedd yn ymuno â'r sgwrs am y tro cyntaf.

Nodau ac amcanion y gweithdy hwn oedd:

- Rhoi diweddariad o gynnydd y prosiect hyd yma (yr hyn a ddywedodd yr ymchwil wrthym, yr hyn a ddysgwyd yn y gweithdy);
- Nodi a thrafod syniadau y gallai WCPP/IPPO ac eraill eu datblygu i helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i fynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol.
- Rhoi gwybod i bobl 'beth sy'n digwydd nesaf';
- Nodi gweithgareddau ac allbynnau posibl
- Archwilio a datblygu partneriaethau posibl i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

I ddechrau arni, rhoddwyd pawb mewn grwpiau bach ar wahân i gyflwyno eu hunain a dod i adnabod ei gilydd. Myfyriodd y grwpiau ar y prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy yn Wrecsam (os oeddent yno) a'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl o'r sesiwn ar-lein (os nad oeddent yn Wrecsam). Ailymunodd pawb â'r prif grŵp wedi hynny.

Gwahoddwyd aelodau o APLE Collective a Chomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe i rannu eu barn ar y gweithdy wyneb yn wyneb yn Wrecsam. Myfyriodd yr aelodau ar yr hyn a oedd yn ddefnyddiol iddynt yn y gweithdy, gan gynnwys y perthnasoedd y galluogodd y rhai a gymerodd ran eu meithrin a'r budd o ymgynnull wyneb yn wyneb i drafod pwnc pwysig sy'n berthnasol i nifer o sectorau. Nodwyd hefyd bod diddordeb gwirioneddol yn sut y bydd y prosiect yn datblygu.

Gwahoddwyd pawb a oedd yn bresennol i dreulio cyfnod byr yn myfyrio'n unigol ar y cwestiwn canlynol: 'Beth allai WCPP/IPPO a phartneriaid ei wneud i helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio tystiolaeth i'w helpu i fynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol?' Mewn grwpiau mwy o faint, edrychodd pawb ar y syniadau yr oeddent wedi'u llunio a gofynnwyd iddynt eu graddio o 'cael llai o effaith i 'cael mwy o effaith', a 'haws i'w wneud' i 'anodd eu gwneud'. Aethpwyd ati wedyn i gyflwyno'r syniadau a gafodd lawer o gefnogaeth i'w trafod gan y grŵp cyfan. Crynhoir y drafodaeth hon isod.

Themâu allweddol o drafodaeth y grŵp cyfan

Hyfforddiant, adnoddau a chodi ymwybyddiaeth

Roedd syniadau yn y maes hwn yn canolbwyntio'n benodol ar godi ymwybyddiaeth o'r rôl y gall gwasanaethau cyhoeddus ei chwarae wrth fynd i'r afael â stigma. Mae hyn yn cynnwys eu cynorthwyo drwy gynllunio hyfforddiant ac adnoddau. Dylai'r rhain gael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr sydd â phrofiad bywyd er mwyn hysbysu llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol am rôl stigma tlodi.

Roedd y syniadau poblogaidd yn cynnwys:

- Creu pecyn cymorth tebyg i becyn 'prawfesur polisïau ar dlodi yn ystod y diwrnod ysgol' CPAG a/neu godi ymwybyddiaeth ynghylch hwn neu adnoddau eraill sy'n bodoli
- Cyd-baratoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi/stigma ar gyfer llunwyr polisïau ac ymarferwyr ag arbenigwyr profiad bywyd,

gan ddefnyddio gwyddor ymddygiad neu fframweithiau eraill sy'n bodoli

- Gweithio mewn/gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o stigma, gan ddefnyddio dull a arweinir gan y plentyn
- Amlygu 'camau cyflym' syml nad ydynt yn dibynnu ar lawer o adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â stigma, efallai drwy gyfres o flogiau neu adnoddau hygyrch eraill

Rhannu gwybodaeth a chyfuno a meithrin perthnasoedd

Roedd awydd i ddatblygu clymblaid traws-sector neu grŵp cyfeirio 'arferion gorau' ar gyfer rhannu dealltwriaeth a gwybodaeth. Byddai hyn hefyd yn fodd o feithrin perthnasoedd a rhwydwaith ehangach sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â stigma tlodi. Roedd y rhai oedd yn bresennol hefyd yn gwerthfawrogi'r syniad o weithgaredd i ddod â phobl ynghyd i gael sgysiau ar lefel leol yn ogystal â chasglu a hyrwyddo straeon cadarnhaol ac astudiaethau achos.

Roedd syniadau eraill yn cynnwys:

- Datblygu dangosfwrdd syml i goladu a rhannu dealltwriaeth a thystiolaeth berthnasol.
- Creu cronfa o dystiolaeth profiad bywyd.
- Datblygu 'llwyfan a rennir' i hyrwyddo pwy sy'n gwneud beth a ble (unwaith eto, meithrin perthnasoedd a chydlynu adnoddau)
- Rhannu canfyddiadau â Llywodraeth Cymru a gweithio gyda nhw i ddatblygu a nodi camau gweithredu ac atebion.

Digwyddiadau (gan gynnwys rhagor o weithdai)

- Cynnal uwchgynhadledd i drafod stigma tlodi sy'n cynnwys siaradwyr o wahanol sectorau
- Gweithdy arall sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cyfryngau a byd iechyd, a chynrychiolwyr â phrofiad byw o leoliadau trefol a gwledig.
- Gweithdy gyda darparwyr gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ymarfer lle mae darparwyr gwasanaethau a phobl sydd â phrofiad o ddioddef stigma tlodi, yn cyfnewid rôl

Newid y naratif (gweithio gyda'r cyfryngau)

- Creu pecyn cymorth ar gyfer gweithio gyda'r cyfryngau lleol ac adrannaucyfathrebu mewnol i fynd i'r afael â stigma
- Gweithio gyda'r cyfryngau lleol a llywodraeth i newid naratifau
- Ystyried yr iaith y mae WCPP (a phartneriaid) yn ei defnyddio yn eu gwaith

Gwerthuso

Nododd nifer o bobl bwysigrwydd cael cam 'gwerthuso' - i fesur effaith camau gweithredu ac ymyriadau.

Gallai hyn gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau, ochr yn ochr â nodi unrhyw fylchau ymchwil i roi ffocws i'n gwaith.

Datblygu a darparu cyfarpar ymchwil i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus

Roedd yr awgrymiadau hefyd yn cynnwys cysylltu gwasanaethau cyhoeddus â'r cyfarpar a'r adnoddau ymchwil diweddaraf i'w galluogi i fynd i'r afael â stigma tlodi. Awgrymwyd hefyd y dylid cael dangosfwrdd hygyrch sy'n cynnwys gweithgareddau ymchwil, sy'n rhoi gwybodaeth, adroddiadau a phapurau pwnc a gynhyrchwyd gan WCPP ar gais sy'n ymwneud ag ystod eang o themâu ym maes stigma tlodi e.e. stigma tlodi a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cafwyd awgrymiadau hefyd o alluogi 'mynediad hawdd' at ymchwil ac adnoddau WCPP.

Cynnwys profiad bywyd (arbenigwyr a phobl ifanc) wrth ddatblygu polisiau

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai'n teimlo'n gryf bod cynnwys profiad bywyd ym mhob cam o brosesau gwneud penderfyniadau, yn ogystal â meithrin perthnasoedd proffesiynol â phobl â phrofiad bywyd, yn themâu pwysig sy'n sail i'r syniadau a drafodwyd uchod. Roeddent hefyd yn teimlo'n gryf am weithio gyda phobl ifanc a'u cynnwys wrth ddatblygu unrhyw bolisiau.

Nod cyffredinol y gweithdai oedd ein helpu i nodi beth allai WCPP neu eraill ei wneud nesaf i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio'r dystiolaeth orau i fynd i'r afael â stigma tlodi yn fwy effeithiol.

CLICIWCH YMA am mwy o wybodaeth am y prosiect yma

Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chynghor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cynghor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru, a Phrifysgol Caerdydd,

wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Charlotte Morgan

+44 (0)29 2087 5345

charlotte.morgan@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP

